# CA3 - GWEITHGAREDDAU

**Gweithgaredd 5 – Drama a'r Celfyddydau Perfformio – Gwrando a Deall, Trawsieithu a Thrafod y rhinweddau sydd eu hangen i fod yn berfformiwr**

Mae Adrian Metcalfe yn actor sy'n perfformio sioe am Dylan Thomas. Gwyliwch y clip o **Adrian Metcalfe** yn Saesneg.

https://www.youtube.com/watch?v=Oiir2k0WKfk

Atebwch y cwestiynau hyn yn **Gymraeg:**

1. Pa gyngor y mae Adrian Metcalfe yn ei roi i actor/perfformiwr?

2. Gwyliwch yr adran lle mae Adrian Metcalfe yn perfformio unwaith eto. Pa awgrymiadau eraill y gallwch eu codi o **wylio** ei berfformiad?

**Pwyntiau trafod:**

1. Pa rinweddau cyffredinol sydd eu hangen arnoch i fod yn berfformiwr?

2. Mae Adrian Metcalfe yn perfformio sioe am Dylan Thomas mewn tafarnau. Trafodwch fanteision ac anfanteision perfformio mewn tafarnau o'i gymharu â pherfformio mewn theatr.

3. Oes person llenyddol/hanesyddol neu fabolgampwr/wraig o bwys yn eich ardal chi y gallech chi seilio sioe neu ddrama arno/arni? Trafodwch eich syniadau.

**Gweithgaredd ysgrifennu**

- Defnyddiwch y cyngor a'r awgrymiadau gan Adrian Metcalfe i greu **poster** ar gyfer eich ystafell ddosbarth neu stiwdio ddrama/celfyddydau perfformio. Gallwch hefyd gynnwys rhai o'r rhinweddau cyffredinol a gododd yn eich trafodaeth.

# Cysylltiadau â'r Fframwaith Llythrennedd:

## Llafaredd

**Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau**
**Siarad**

**Blwyddyn 7**

- cyflwyno pynciau a syniadau'n eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol ac amrywio'r hyn y maent yn ei ddweud a sut maent yn ei ddweud er mwyn ennyn diddordeb y gwrandawyr
- defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun

**Blwyddyn 8**

- cyflwyno pynciau a syniadau'n gydlynus, gan ddefnyddio technegau'n effeithiol
- defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun

**Blwyddyn 9**

- cyflwyno syniadau a materion yn llawn argyhoeddiad gan ddefnyddio amryw o dechnegau
- defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun

## Gwrando

**Blwyddyn 7**

- ymateb yn bwyllog i syniadau eraill, gan ofyn cwestiynau cymwys

**Blwyddyn 8**

- ymateb yn gadarnhaol ac ystyrlon i syniadau newydd a safbwyntiau gwahanol

**Blwyddyn 9**

- ystyried perthnasedd ac arwyddocâd gwybodaeth a syniadau a gyflwynwyd iddynt

## Cydweithio a thrafod

**Blwyddyn 7**

- gwneud amrywiaeth o gyfraniadau i drafodaethau
- cyrraedd consensws a chytuno ar gamau gweithredu mewn grwpiau

**Blwyddyn 8**

- trafod safbwyntiau cyferbyniol, a thrafod y camau nesaf

**Blwyddyn 9**

- nodi bod amrywiaeth o ddewisiadau o ran camau gweithredu a dod i gytundeb er mwyn cyflawni amcanion y grŵp